



**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 4 Gorffennaf 2024**

**Presennol:** Cath Smith (Cadeirydd)  
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards, Llywodraeth Cymru (LIC)  
I gael y wybodaeth ddiweddaraf am Amlrywogaethau Cymru - Carol Driver Pennaeth Darparu Polisi Anifeiliaid (LIC), Galvin Doyle, Arweinydd Amlrywogaethau Cymru (LIC)

**Y Swyddogion:** Heather Anstey-Myers, Prif Weithredwr Dros Dro  
**Gweithredol** Gareth Jones, Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol  
Rachael Madeley-Davies, Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol  
Laura Pickup, Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau  
Jo Horder, Ysgrifenyddiaeth  
Elizabeth Swancott (eitem 6b)

**Derbyn diweddariad ar lafar gan Lywodraeth Cymru ar Amlrywogaethau Cymru (MSW)**

Croesawodd y Cadeirydd Carol Driver a Galvin Doyle (Llywodraeth Cymru), a roddodd ddiweddariad i'r Bwrdd am brosiect Amlrywogaethau Cymru. Teimlwyd y byddai trafodaeth gydag unigolion allweddol am y cyfleoedd data o fudd.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi / Llywodraeth Cymru**

Teimlwyd hefyd y byddai sesiwn bellach i ddiweddarau'r Bwrdd yn ddefnyddiol, gyda'r cyfle i arddangos y system a thrafod yn fanylach rai o'r pwyntiau allweddol a nodwyd.

**Gweithredu: Cadeirydd / Tîm Amlrywogaethau Cymru**

**1. Croeso a Sylwadau gan y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Yn dilyn ei ymddiswyddiad diolchodd y Cadeirydd i Gwyn Howells am ei flynyddoedd lawer o wasanaeth i HCC ac i'r diwydiant cig coch.

Hefyd, yn dilyn eu hymddiswyddiadau o'r Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i Prys Morgan a Rhys Davies am eu cyfraniadau sylweddol yn ystod eu cyfnod fel aelodau'r Bwrdd.

Cydnabu'r Cadeirydd fod HCC yn mynd trwy gyfnod o newid sylweddol a diolchodd i'r Tîm Gweithredol a'r staff am y gwaith y maent wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud yn

## CYFRINACHOL

enw HCC.

Adroddwyd bod cyfarfodydd y Ford Gron Weinidogol wedi dechrau a'u bod wedi cyfarfod ym mis Mehefin. Bydd HCC yn chwarae rhan bwysig a phwysig yn hyn.

Bu HCC hefyd yn llwyddiannus mewn ymgais i fod yn rhan o'r Adolygiad Atafaelu Carbon. Mae cynrychiolaeth o wyth sefydliad ar y panel hwn ac mae'n cynnwys ffrwd waith helaeth a phwysig.

### 2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

### 3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiad o Fuddiannau.

### 4. **Cymeradwyo cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd:**

#### *a. Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Mai 2024 (HCC 1202)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

#### *b. Cyfarfod diweddar y Bwrdd a gynhaliwyd drwy Teams ddydd Iau 6 Mehefin 2024 (HCC 1203)*

Cafodd bod cofnodion y cyfarfod wedi'u cywiro.

### 5. **Materion sy'n codi o eitemau 4a a 4b uchod**

#### **Cofnodion dydd Iau 2 Mai 2024**

##### *Eitem 3 - Llythyr Cyfrinachedd a Gwrthdaro Buddiannau a Gwrthlwgrwobrwyo heb ei lofnodi*

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol fod y rhain i gyd wedi'u derbyn.

##### *Eitem 6c – Rheoli swyddi gwag*

Nodwyd bod y gwaith hwn yn parhau.

##### *Eitem 7b – Cofnodion Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy 27 Chwefror 2024*

Nodwyd bod cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol.

##### *Eitem 9 – Amlrywogaethau Cymru*

Wedi'i gynnwys ar yr agenda.

#### **Cofnodion dydd Iau 6 Mehefin 2024**

##### *Eitem 4 – Ymgyrch Cig Oen Cymru*

Nodwyd bod cyflwyniad yr ymgyrch wedi'i uwchlwytho i Sharepoint.

## CYFRINACHOL

### 6. Adroddiadau HCC

#### a. Adroddiad darparu (HCC 1204)

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

Nodwyd bod canlyniadau'r ymgyrch eiriolaeth ac amddiffyn wedi eu derbyn a'u gwerthuso. Bydd y rhain yn cael eu rhannu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd

#### **Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

Nodwyd bod angen diweddarau'r rhestr Acronymau ar SharePoint.

#### **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

#### b. Derbyn diweddariad ar Cig-weithio

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwybodaeth am y Farchnad ac Ymchwil a Datblygu yr uchod.

Roedd y pwyntiau allweddol a gyflwynwyd yn cynnwys y canlynol:

- Roedd tair elfen i'r rhaglen 12 mis, sesiynau modiwlau ar wahanol themâu, mentoriaid a ddewiswyd ar gyfer pob cyfranogwr o faes gwahanol o'r diwydiant a phrosiect a fydd yn cael ei gynllunio a'i ddarparu gan y grŵp.
- Dewiswyd 10 aelod o'r grŵp o bob rhan o Gymru ac ar draws y diwydiant. Mae'r oedran yn amrywio o 25 i 35 oed. Roedd safon yr ymgeiswyr yn uchel iawn a derbyniwyd 34 cais.
- Bydd y Grŵp Cig-weithio yn cael ei lansio yn Sioe Frenhinol Cymru pan fydd aelodau'n cael eu cyhoeddi.
- Y cam nesaf fydd neilltuo mentoriaid a chynnal y modiwl cyntaf ym mis Medi.

Nodwyd y bydd y tîm yn anelu at gadw mewn cysylltiad ag ymgeiswyr aflwyddiannus a fydd yn cael eu gwahodd i fynychu sesiwn Byw i Farw yn y dyfodol, yn ogystal â chyfleoedd eraill i gadw cysylltiad.

Nodwyd hefyd y bydd y tîm yn ystyried sut i barhau i ymgysylltu ag aelodau'r grŵp ar ddiwedd y 12 mis er mwyn meithrin perthnasoedd ar gyfer y dyfodol.

Ar ran y Bwrdd, canmolodd y Cadeirydd y fenter gan ddweud ei bod yn rhagorol a'i bod wedi denu llawer iawn o ddiddordeb gan drawstoriad o bobl ifanc yn y diwydiant.

#### c. Derbyn diweddariad ar lafar ynghylch presenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 22 - 25 Gorffennaf 2024

Rhoddodd Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau ddiweddariad i'r Bwrdd ynglŷn â'r cynlluniau ar gyfer presenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru.

Mae'r amserlen hyd yn hyn yn cynnwys:

- dydd Llun - 8.00am brecwast HCC. Trwy wahoddiad yn unig. Ysgrifennydd y Cabinet wedi cadarnhau y bydd yn bresennol.

## CYFRINACHOL

- dydd Mawrth ar y stondin – a.m. Sesiwn Ffermio er gwaethaf y Tywydd gyda'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN); p.m. Lansio Cig-weithio
- dydd Mawrth heb fod ar y stondin – cystadleuaeth goginio ar stondin CFFl gyda Swyddog Gweithredol y Defnyddwyr HCC yn bresennol ac yn ei beirniadu; cystadleuaeth stêc ar stondin Tesco gyda staff Marchnata Strategol a Chysylltiadau'n bresennol i egluro rhinweddau Cig Eidion Cymru a Chig Oen Cymru.
- dydd Mercher ar y stondin - a.m. lansio prosiect Arloesi Aber a rhoi trosolwg ohono.
- dydd Iau ar y stondin – a.m. Derbyniad ysgoloriaeth.
- dydd Iau heb fod ar y stondin – seminar 'Sicrhau dyfodol ffermio ar gyfer y genhedlaeth nesaf' ar stondin CFFl.
- Digwyddiadau eraill heb fod ar y stondin gyda dyddiadau i'w cadarnhau yn cynnwys:
  - Seminar ar gyfer defnyddwyr ar stondin UAC.
  - Seminar gyda threfnwyr Sioe Frenhinol Cymru a chenedlaethau'r dyfodol.
  - Arddangosiadau defnyddwyr ar stondin Marks and Spencer.

Bydd yr amserlen yn cael ei rhannu gyda'r Bwrdd pan fydd y manylion wedi'u cwblhau, ynghyd â'r camau i'w cymryd. Gwneir datganiad i'r wasg cyn y sioe wythnos nesaf.

Nodwyd bod HCC wedi derbyn sawl gwahoddiad i fod yn bresennol ar stondinau ac mewn digwyddiadau amrywiol, felly roedd yn ddefnyddiol gwybod os oedd aelodau'r Bwrdd ar gael i helpu.

### **Gweithredu: Bwrdd**

- d. *Derbyn diweddariad ar lafar ynglŷn â chynllunio ar gyfer Ymgyrch Cig Eidion Cymru 2024/2025 – Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau*

Nodwyd nad oedd y cyfarfod cychwynnol ar gyfer yr ymgyrch wedi'i gynnal eto felly nid oedd unrhyw ddiweddariad.

Bydd adroddiad diweddarau yn cael ei uwchlwytho i SharePoint cyn diweddarau'r Bwrdd drwy Teams ar 4 Medi a rhoddir diweddariad ar lafar yn y cyfarfod.

### **Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

- e. *Crynodeb Bwletin y Farchnad (HCC 1194)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Nodwyd bod cynnydd o 2% yn nifer y gwartheg yn lladd-dai'r DU ym mis Mai. Holwyd a oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn incwm ardoll HCC, yn unol â thueddiadau cenedlaethol.

Rhennir y wybodaeth hon pan fydd ar gael.

## CYFRINACHOL

### Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol

f. Digwyddiadau i ddod (HCC 1197)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

g. Ariannol – Cyfrifon Rheoli hyd at 31 Mawrth 2024 (HCC 1195)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a rhoddwyd crynodeb gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol.

Tynnwyd sylw at faterion allweddol y dylai'r Bwrdd wybod amdanynt:

- Roedd gwarged gweithredol o £100k, sef £15k cyn y gyllideb alldro;
- Cefnogir hyn gan danwariant hyd yma yn erbyn gwariant (£125k), ond mae rhywfaint o hyn wedi ymrwmo i gefnogi diffyg cyfnod 2 o £102k mewn incwm o ardoll defaid;
- Roedd gostyngiad amlwg wedi bod o ran nifer yr ŵyn mewn lladd-dai, oedd 24% i lawr ar yr un cyfnod y llynedd;
- Er y gallai'r prisiau uchel a delir i ffermwyr annog mwy o niferoedd, mae yna bryderon o hyd fod cynhyrchwyr wedi cadw llai o ŵyn beinw ar gyfer bridio. Gallai hyn arwain at oblygiadau ymhellach ymlaen.

Cafwyd trafodaeth ar yr heriau hirdymor mewn perthynas â'r duedd ar i lawr o ran nifer y defaid mewn lladd-dai, beth allai hyn ei olygu i'r diwydiant a chapasiti prosesu yn y dyfodol yng Nghymru, a'r effaith ar gyllid HCC yn y dyfodol.

Teimlwyd bod angen deall yn well sut y gall HCC gynllunio ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd a beth y gallai newidiadau i'r farchnad ei olygu ar gyfer sefyllfa a chylch gorchwyl HCC yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

### Gweithredu: Prif Weithredwr

Dywedodd Maria Richards (Llywodraeth Cymru) wrth y Bwrdd y bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i'r diwydiant ehangach, a dylai gwybodaeth o'r ymchwil hwn roi gwell darlun o dueddiadau'r dyfodol. Bydd hyn yn digwydd ym mis Medi/Hydrif a rhagwelir y bydd y canfyddiadau ar gael cyn diwedd y flwyddyn.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch codi'r materion a nodwyd gydag isadran noddi HCC, a dechrau trafodaethau mewn perthynas â goblygiadau o ran llywodraethu ac i'r diwydiant yn sgil y gostyngiad ym mäs critigol a niferoedd prosesu yng Nghymru yn y dyfodol. Teimlwyd y byddai angen gwneud hyn yn y dyfodol agos.

Bydd hyn yn cael ei godi yng nghyfarfod Llywodraethu HCC / Llywodraeth Cymru a bydd Maria Richards (Llywodraeth Cymru) yn cael gwybod pwy i wahodd i gyfarfod ehangach i drafod y materion.

### Gweithredu: Prif Weithredwr

## 7. Pwyllgorau HCC

### Pwyllgor Archwilio a Risg

a. Derbyn adroddiad ar lafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor

## CYFRINACHOL

### Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Mawrth 11 Mehefin 2024 (HCC 1208)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei ddefnyddio fel adroddiad i'r Bwrdd. Ni chodwyd unrhyw faterion.

Mabwysiadwyd y cofnodion gan y Bwrdd.

Nodwyd bod swydd wag ar y Pwyllgor yn dilyn ymddiswyddiad Rhys Davies o'r Bwrdd. Bydd hyn yn cael sylw yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Hydref.

### b. Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl Archwilio a Risg a'r Llythyr Penodi (HCC 1209)

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol am baratoi'r papurau.

Nodwyd o bryd i'w gilydd y gall aelodaeth y Bwrdd neu strwythurau'r Pwyllgor newid a holwyd a ellid adlewyrchu'r elfen hon mewn perthynas ag Archwilio a Risg yn y Cylch Gorchwyl.

### **Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol**

Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl a'r Llythyr Penodi gan y Bwrdd.

### **Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy**

### c. Cymeradwyo cofnodion y Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy a gynhaliwyd ddydd Mawrth 27 Chwefror 2024 (HCC 1210)

Nodwyd bod y cofnodion a gyflwynwyd wedi'u cymeradwyo gan y Grŵp a'u bod wedi eu mabwysiadu gan y Bwrdd ar y sail honno.

### d. Derbyn adroddiad ar lafar o'r Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Mai 2024

Rhoddodd Cadeirydd y Grŵp ddiweddariad llafar o'r cyfarfod.

Dyma'r pwyntiau allweddol;

- Rhoddodd Awdurdod Gweithredol Ymchwil a Datblygu a Chynaliadwyedd ddiweddariad i HCC a oedd yn cynnwys GrassCheck GB, ysgoloriaethau ymchwil doethuriaeth, Cynhadledd Cymdeithas Gwyddor Anifeiliaid Prydain, Her Arfor a phrosiectau a ariennir gan Arloesi Aber, a'r Grŵp Cig-weithio.
- Cynhaliwyd trafodaeth wedi'i hwyluso i osod y 16 blaenoriaeth a drafodwyd yn y cyfarfod cychwynnol ym mis Chwefror 2024 mewn trefn.
- Nodwyd y tair blaenoriaeth uchaf fel;
  - 1) Pori
  - 2) Iechyd a Lles Anifeiliaid
  - 3) Iechyd y pridd a rheoli maeth
- Hefyd trafodwyd yr elfennau allweddol o dan bob blaenoriaeth. Nodwyd amrywiaeth eang o faterion, a'r un oedd y rhain i raddau helaeth â'r rhai a nodwyd yn yr 16 blaenoriaeth gychwynnol.

## **CYFRINACHOL**

- Cynigiwyd bod papur safbwynt yn cael ei baratoi ar pam fod angen da byw arnom yng Nghymru. Bydd HCC yn arwain y gwaith o lunio fframwaith ar gyfer y papur gyda mewnbwn gan y grŵp.

Cafwyd trafodaeth ar gynnal y cyfarfod a beth i'w gynnwys ar yr agenda. Cydnabuwyd mai dyddiau cynnar yw hi i'r Grŵp, ond cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r dyfodol pe rhoddid ystyriaeth bellach i gynnwys yr agenda a'r cyfleoedd fel bod cyfranogwyr yn elwa mwy o'r cyfarfodydd.

### **Gweithredu: Cadeirydd y Grŵp / Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a gymerodd ran am eu gwaith i ddatblygu'r Grŵp hyd yma.

## **8. Unrhyw fater arall**

### *Penodi aelodau newydd o'r Bwrdd*

Cafodd y broses o benodi aelodau newydd ei hamlinellu. Gan mai penodiadau Gweinidogol yw'r rhain, mae'r broses yn cael ei harwain gan Lywodraeth Cymru, ond mae'n ddull cydweithredol.

Bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr dros dro yn cyfarfod Llywodraeth Cymru yn ystod yr wythnos ganlynol i drafod gofynion y Bwrdd a'r broses i'w dilyn.

Dywedodd Maria Richards (Llywodraeth Cymru) wrth y Bwrdd y bydd telerau presennol y Bwrdd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025, felly byddant yn ceisio cysoni dyddiadau a chynnal un broses benodi. Mae gan y Bwrdd gworwm gyda'r aelodaeth bresennol.

## **9. Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddariad i'r Bwrdd drwy Teams - dydd Iau 5 Medi 2024 am 9.30am  
Cyfarfod o Fwrdd HCC – dydd Iau 3 Hydref 2024 am 10am

### **Sesiwn Gaedig o Fwrdd HCC**

Dilynodd cyfarfod ar wahân a chyfrinachol o'r Bwrdd

**Llofnodwyd.....**  
**Cadeirydd HCC**